Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Gwobrau Cenedlaethol 2026

## Canllaw Enwebu

Rydym yn falch iawn o gynnal ein Gwobrau Cenedlaethol 2026.

Mae'r Gwobrau'n gyfle i arddangos Cynghorau Cymuned a Thref, y gwasanaethau a ddarparant i'w cymunedau lleol ac ymrwymiad a gwaith Cynghorwyr cymuned a thref, Clercod a staff. Mae hwn yn gyfle i gynghorau lleol dderbyn y gydnabyddiaeth maen nhw'n ei haeddu.

Bydd yr arfer arloesol a gydnabyddir yn rhan allweddol o'r corff tystiolaeth a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, awdurdodau unedol, y trydydd sector a phartneriaid allweddol eraill i amlygu'r gwaith da a wneir gan gynghorau lleol yn eu cymunedau.

Cyhoeddir y cynigion buddugol o wobrau yn rhan o Seremoni Gwobrau Blynyddol Un Llais Cymru a gynhelir ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, LD2 3SY ar ddydd Mercher 1 Gorffennaf 2026.

Rydym yn falch bod y fenter hon yn rhan annatod o galendr gweithgareddau blynyddol Un Llais Cymru unwaith eto ac y gallwn gydnabod, gwobrwyo a dathlu'r Cynghorau, Cynghorwyr a staff sy'n gweithio mor galed i gynrychioli a darparu orau y gallant ar gyfer y cymunedau a wasanaethant.

**Cyng. Mike Theodoulou**
**Cadeirydd, Un Llais Cymru**

# Cyflwyniad

## Pwy All Enwebu

Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.
Noder: dim ond i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau blynyddol cyfredol o Un Llais Cymru y mae proses Gwobrau Un Llais Cymru ar agor.

## Sut i Wneud Cais

I wneud cais, rhaid i chi lenwi ein Ffurflen Gais ar-lein, gan wneud yn siŵr eich bod wedi cwblhau pob adran ac wedi ateb pob cwestiwn mor gywir â phosibl. Rydym wedi cyflwyno terfynau Cyfrif Geiriau llym iawn i rai adrannau. Nid yw'n bosibl mynd y tu hwnt i'r terfynau geiriau hyn; os gwnewch hynny, ni fydd eich Ffurflen Gais yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus.

**Dyddiad Cau: 30 Ebrill 2026 (hanner nos)**

Bydd pob cais yn cael ei asesu a'i sgorio gan Banel Asesu annibynnol. Mae'r Panel yn cynnwys partneriaid strategol cenedlaethol sydd â dealltwriaeth a gwybodaeth arbenigol am y sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Dylech anelu at ddarparu adroddiad cryno ar gyfer y Panel Asesu, yn cyfeirio at dystiolaeth ac arwyddbyst at unrhyw ddogfennaeth arall all gefnogi eich cais. Gallwch gynnwys dolenni gwe i ffynonellau gwybodaeth eraill i gefnogi eich cais, ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn eich cyfrif geiriau terfynol ar gyfer yr adran honno.

Dylai ceisiadau gynnwys enghreifftiau o arfer da sy’n ffyrdd newydd neu ‘arloesol’ o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a/neu ffyrdd profedig o wella gwasanaethau a ffyrdd mwy effeithlon o weithio.

Os byddwch yn llwyddo i fod ar y rhestr fer ar gyfer gwobr, hyderwn y byddwch yn cytuno i rannu’r wybodaeth a ddarparwyd gennych fel rhan o’r broses asesu ac yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio’r deunydd mewn gweithgareddau hyrwyddo yn y dyfodol, megis Adroddiad Cynhadledd. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu hyrwyddo ar ein gwefan, yn y cyfryngau ac ar draws ein cyfryngau cymdeithasol.

## Y Broses Asesu

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu yn ôl thema y categori a’r meini prawf llywodraethiant canlynol:

- mae’n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol & lleol
- mae’n cyfrannu at lywodraethiant democrataidd gan aelodau etholedig a budd-ddeiliaid ac at atebolrwydd cyhoeddus
- cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol
- dysgu oddi wrth eraill a dylanwadu ar y sector gwasanaethau
- tystiolaeth o effaith, gwelliant a chyflawniad ar gydraddoldebau
- tystiolaeth o effaith ar bobl a chymunedau
- tystiolaeth o reoli adnoddau effeithlon ac effeithiol (dynol ac ariannol)
- tystiolaeth o gynaliadwyedd wrth gynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol
- costau a ddefnyddiwyd a'r pŵer y dibynnai'r prosiect arno

Yn naturiol, po fwyaf o dystiolaeth o'r uchod y gallwch ei darparu gyda'ch Cais, y mwyaf y bydd yn gwella'ch asesiad a'ch sgorio cyffredinol.
Noder: Cofiwch gadw o dan y Terfyn Geiriau ar gyfer pob adran.

## Amserlen

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 30 Ebrill 2026 (hanner nos)**

**Y Broses Asesu**: Bydd panel annibynnol o gynrychiolwyr mudiadau partner a budd-ddeiliaid yn cyfarfod i feirniadu’r holl geisiadau a dderbyniwyd. Bydd pob Cyngor a roddwyd ar restr fer yn cael gwybod mor gynted a phosib, a bydd disgwyl iddynt fynychu'r Gynhadledd Gwobrau i gasglu eu gwobr.
**Seremoni Wobrau**:  Cynhelir seremoni gyflwyno arbennig ar 1 Gorffennaf 2026 ar Faes y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd.
**Gwobr:** Bydd gwobr wydr wedi'i ysgythru yn cael ei chyflwyno i'r enillwyr, a bydd pob un sy’n cael Canmoliaeth Uchel a Chanmoliaeth yn derbyn tystysgrif wedi'i fframio.

# Categorïau Gwobrau

## 1. Menter Llywodraethu Orau

Gallai hyn gynnwys eich Adroddiad Blynyddol neu drefniadau llywodraethu cadarn neu arloesol eraill, sy'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda a'i reoli'n briodol.

Bydd y wobr hon yn cydnabod Cyngor sydd wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol llawn gwybodaeth ar gyfer ei drigolion a'r gymuned ehangach yn amlinellu ei waith, ei gyflawniadau a'i ddyheadau.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddisgrifio ac esbonio:

- Sut rydych wedi defnyddio'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu
- Sut roddwyd cyhoeddusrwydd i'r Adroddiad Blynyddol a sut cafodd ei ddosbarthu
- Pa fudd mae'n gynnig i'r cyngor, ei gymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais, trafod y meini prawf, a chofiwch uwchlwytho copi o'r Adroddiad Blynyddol os yw'n berthnasol. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn tynnu sylw at y gwasanaeth hefyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

## 2. Menter Iechyd Democrataidd Orau

Byddwch yn tynnu sylw at waith y Cyngor i wella iechyd democrataidd y gymuned. Sut mae'r Cyngor wedi annog ymgysylltu a phleidleisio mewn etholiadau?

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir i chi ddisgrifio ac egluro'r canlynol:

- Y camau a'r mentrau a gyflawnwyd gan y Cyngor i wella Iechyd Democrataidd yn y gymuned
- Sut mae'r Cyngor wedi annog ymgysylltiad a chyfranogiad trigolion wrth bleidleisio mewn Etholiadau o fewn y gymuned
- Sut mae'r Cyngor wedi cefnogi amrywiaeth
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) byddai tynnu sylw at y gwasanaeth hefyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

# 3. Defnydd Gorau o Adnoddau Digidol

Mae'r wobr hon i gydnabod y defnydd mwyaf arloesol o adnoddau digidol a ddefnyddir gan Gyngor gan gynnwys Gwefan Cyngor sy'n darparu gwybodaeth ac yn cyfeirio at waith y cyngor a gwasanaethau lleol; cyfathrebu digidol a gweithgareddau hyrwyddo; llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac Apiau digidol eraill.

Mae llawer o Gynghorau yn croesawu cyfathrebiadau digidol i ddarparu datrysiadau a gwasanaethau cynaliadwy a modern: cyfarfodydd ‘hybrid’, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gwefannau bywiog, cylchlythyrau electronig? Dywedwch wrthym am gyflawniadau eich Cyngor.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddarparu:

- Cyfeiriad y wefan a chysylltiadau/cyfeiriadau cyfryngau cymdeithasol, a hefyd i ddisgrifio pam fod y mentrau digidol neu'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn arloesol
- Tystiolaeth sy'n cefnogi'r budd i'r gymuned neu'r cyhoedd ehangach o'r adnoddau digidol a ddefnyddir
- Sylwer: Bydd ceisiadau’n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi’r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf. Cofiwch nodi cyfeiriad y Wefan a enwebwyd, y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac Apiau.

# 4. Menter Gynaliadwyedd Orau

Mae'r wobr hon yn cydnabod menter gynaliadwy a gyflwynwyd gan y Cyngor. Byddwch yn dangos sut mae’r fenter o fudd i’r gymuned leol ac yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi:

- Roi cefndir a manylion y fenter
- Disgrifio sut mae o fudd i’r gymuned a sut mae’n cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Sylwer: Bydd ceisiadau’n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi’r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn amlygu’r prosiect hefyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

# 5. Prosiect Amgylcheddol Gorau

Mae'r wobr hon i dynnu sylw at brosiect amgylcheddol a gynhaliwyd gan y Cyngor sy'n dangos sut mae'r prosiect o fudd i'r gymuned leol. Dywedwch wrthym sut rydych chi'n annog bioamrywiaeth, yn darparu lleoedd diogel i fywyd gwyllt neu'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae Cynghorau Lleol yn gwneud gwaith gwych yn y meysydd pwysig hyn.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddarparu:

- Manylion cefndir am pam a sut y cyflawnwyd y prosiect
- Manylion a thystiolaeth yn dangos sut mae o fudd i'r amgylchedd lleol
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn amlygu'r prosiect hefyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

# 6. Menter Treftadaeth a Diwylliant Orau

Mae'r wobr i dynnu sylw at waith Cyngor sydd wedi ymgymryd â menter dreftadaeth neu wedi hyrwyddo prosiect diwylliannol o fewn ei gymuned.

Mae Cymru yn wlad sy'n gyfoethog o ran diwylliant. Gwlad y Gân, cestyll, treftadaeth ddiwydiannol ac iaith hynafol. A yw eich Cyngor yn Arwr Treftadaeth?

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddisgrifio:

- Manylion cefndir ar pam a sut y gweithredwyd y prosiect
- Manylion a thystiolaeth yn dangos sut mae o fudd i'r amgylchedd lleol
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn amlygu'r prosiect Treftadaeth hefyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

# 7. Menter Dwristiaeth Orau

Mae'r wobr hon i gydnabod ac amlygu enghraifft o fenter dwristiaeth lwyddiannus a gyflwynwyd gan y Cyngor sy'n cefnogi'r economi dwristiaeth leol yn weithredol.

Mae Cymru yn wlad brydferth, yn llawn golygfeydd rhyfeddol, arfordir godidog a threfi, dinasoedd a phentrefi diddorol. Bydd eich cais yn tynnu sylw at fenter dwristiaeth lwyddiannus a gyflwynwyd gan y Cyngor sy'n cefnogi'r economi dwristiaeth leol yn weithredol.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Bydd rhaid ichi:

- Ddisgrifio pam eich bod yn credu fod angen y fenter a beth oedd cyfraniad y Cyngor
- Esbonio a darparu tystiolaeth ei bod o fudd i'r economi dwristiaeth leol
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn amlygu'r prosiect hefyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

## 8. Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau

Cynghorau lleol yw gwreiddiau democratiaeth leol. Cyflwynir y wobr hon i ddathlu a chydnabod enghraifft o fenter ymgysylltu cymunedol lwyddiannus iawn.

Dywedwch wrthym sut mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r gymuned a sut ymatebodd y gymuned.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi:

- Amlinellu cefndir y fenter
- Disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r gymuned
- Darparu manylion am sut yr ymatebodd y gymuned
- Darparu tystiolaeth yn cefnogi llwyddiant y fenter ymgysylltu.
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais a thrafod y meini prawf.

# 9. Menter Ymgysylltu Ieuenctid Gorau

Mae'r wobr i dynnu sylw at waith Cyngor sydd wedi datblygu a chynnal ymgysylltiad llwyddiannus â phobl ifanc yn ei gymuned. Ein pobl ifanc yw ein hased cyfoethocaf. Dywedwch wrthym sut mae'r Cyngor wedi datblygu a chynnal ymgysylltiad llwyddiannus â phobl ifanc yn ei gymuned.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddisgrifio:

- Sut yr aeth y Cyngor ati i sefydlu, cynnal a rheoli ymgysylltiad effeithiol â phobl ifanc yn yr ardal
- Sut mae'r broses ymgysylltu o fudd i'r Cyngor, y bobl ifanc a'r gymuned
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r ffurflen gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol), os yn briodol, yn amlygu'r ymgysylltu â phobl ifanc yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

## 10. Menter Pobl Hŷn Orau

Bydd y wobr hon yn cydnabod sut mae Cyngor wedi datblygu a chynnal ymgysylltu llwyddiannus â phobl hŷn yn y gymuned.

**Pwy all enwebu?**

Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**

Gofynnir ichi ddisgrifio ac esbonio:

- Manylion cefndir pam a sut y gweithredwyd y prosiect
- Manylion a thystiolaeth yn dangos sut mae o fudd i'r Cyngor, phobl hŷn a'r gymuned leol
- Partneriaid a rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r fenter
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**

Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r ffurflen gais a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol), os yn briodol, yn amlygu'r ymgysylltu â phobl ifanc yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

# 11. Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau

Mae'r wobr i dynnu sylw at waith Cyngor sydd wedi ymgymryd â datganoli gwasanaeth neu ased o fewn eu cymuned i gynnal darpariaeth gwasanaeth neu ased gwerthfawr iawn. Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ymgymryd â mwy a mwy o brosiectau lleol.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddisgrifio:

- Manylion cefndir ar pam a sut y gweithredwyd y prosiect
- Manylion a thystiolaeth yn dangos sut mae o fudd i'r gymuned leol
- Sylwer: Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais?**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r Ffurflen Gais a thafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn amlygu'r gwasanaeth neu ased a ddatganolwyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

# 12. Menter Argyfwng Costau Byw Orau

Mae'r Argyfwng Costau Byw yn parhau i effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Mae llawer o Gynghorau wedi rhoi mentrau ar waith i fynd i'r afael â'r argyfwng.

Mae'r wobr hon i dynnu sylw at waith Cyngor sydd wedi ymgymryd â mentrau i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw yn eu cymuned neu sydd wedi darparu menter/gwasanaeth lleol arloesol i helpu'r rhai y mae'r argyfwng Costau Byw yn effeithio arnynt.

**Pwy all enwebu?**
Gall Aelod neu swyddog Cyngor enwebu Cyngor ar gyfer gwobr.

**Meini prawf**
Gofynnir ichi ddisgrifio:

- Y gwasanaeth gwell a/neu'r fenter arloesol a ddarperir gan y Cyngor
- Sut mae'r camau a gymerwyd wedi mynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw yn y gymuned ehangach
- **Sylwer:** Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu hefyd yn ôl meini prawf llywodraethiant y broses asesu.

**Sut i wneud cais**
Er mwyn gwneud cais rhaid ichi lenwi'r ffurflen gais, a thrafod y meini prawf. Byddai tystiolaeth (atodiadau ychwanegol) yn amlygu'r gwasanaeth neu ased a ddatganolwyd yn fuddiol (dim mwy na 6 llun).

Un Llais Cymru

One Voice Wales

## Mwy am Un Llais Cymru

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref trwy Gymru. Ein gweledigaeth yw:

*"Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i liwio lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt"*

Mae Un Llais Cymru yn anelu at gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i wireddu'r weledigaeth hon a mabwysiadodd y Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

*"Cynrychioli buddiannau Cynghorau Cymuned a Thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru."*

Mae Un Llais Cymru yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o Fodiwlau Hyfforddi, ac mae llawer ohonynt yn ymwneud â phynciau a themâu a gydnabyddir yn ein Rhaglen Gwobrau Cenedlaethol. Ewch i'n tudalen gwefan Modiwlau Hyfforddi i gael gwybod mwy, ac i'ch helpu i ddewis y categorïau gwobrau cywir ac i gynllunio eich ceisiadau!
Cliciwch yma: Trosolwg Modiwlau Hyfforddiant - Un Llais Cymru

**Un Llais Cymru**
**24c Stryd y Coleg**
**Rhydaman**
**SA18 3AF**
Ffôn: **01269 595400 / 07917 846510**
E-bost: **gweinydd@unllaiscymru.cymru**
Gwefan: **www.unllaiscymru.cymru**